**Monitro**

**Ysgol Betws y Coed**
**Bro Gethin**
**Betws-y-Coed**
**Conwy**
**LL24 0BP**

**Rhif yr ysgol: 6622012**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

Arolygwyd Ysgol Betws y Coed yn nhymor yr hydref 2010 a barnwyd bod angen ei gwella'n sylweddol. Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion y mae angen eu gwella'n sylweddol, cynhaliodd Estyn arolygiad dilynol yn Ionawr 2012 gan ganolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28.

## Canlyniad yr ailarolygiad

Nid yw Ysgol Betws y Coed wedi gwneud digon o gynnydd yn y meysydd allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28 o'r ysgol yn nhymor yr hydref 2010. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn bod angen rhoi'r ysgol yn y categori mesurau arbennig.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: gwella safonau yn gyffredinol ac yn arbennig yn y Gymraeg ar draws yr ysgol a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, a chyflwyno mwy o her i'r disgyblion disglair yn eu gwaith

Yn rhannol y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae safonau llafar yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o ganeuon a rhigymau i atgyfnerthu patrymau ieithyddol ar draws ystod o bynciau. Cyndyn oedd disgyblion hŷn yr ysgol i ymateb ar lafar yn y gwasanaeth ac nid yw eu medrau meddwl wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae safonau darllen mwyafrif y plant ar draws y ddau gyfnod allweddol yn datblygu'n briodol. Maent yn dangos hoffter at lyfrau ac mae'r darllenwyr gorau yn darllen gyda pheth hyder ac ystyr yn unol â'u hoedran. Yng nghyfnod allweddol 2, mae uwch sgiliau darllen yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Mae'r ysgol wedi prynu ystod eang o adnoddau darllen yn ddiweddar ac mae rhain yn dechrau cael effaith bositif ar safonau darllen y disgyblion. Er hynny, nid oes sylwadau digon manwl yng nghofnodion athrawon ar y cynnydd mewn darllen gan ddisgyblion yn unigol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol yn y ddwy iaith i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Er hynny, yn aml, nid yw safonau ysgrifennu'n dangos digon o gynnydd dros gyfnod. Mae gwaith y rhan fwyaf o'r plant yn flêr, ac mae cystrawen chwithig yn cael ei derbyn yn rhy aml yn y Gymraeg.

Mae cyfraniad disgyblion at bapur yr ysgol 'Llais Betws' wedi cael effaith bositif ar fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw medrau trin data na modelu wedi eu datblygu ddigon.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau meddwl a'u gallu i weithio'n fwy annibynnol. Mae hyn yn effeithio ar safonau a chynnydd disgyblion. Nid yw plant mwyaf abl a thalentog yn cael eu herio'n ddigonol i gyflawni gystal ag y dylent.

Nid oes gan yr ysgol wybodaeth ddigonol am safonau cyflawniad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Oherwydd niferoedd bach o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 6 yn haf 2011, nid oedd y data perfformiad yn rhoi sail ddigonol i'r tîm arolygu farnu cynnydd.

**Argymhelliad 2: gwella ansawdd marcio yng nghyfnod allweddol 2 a systemau asesu a thracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol**

Yn rhannol y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Bu peth gwelliant yn ansawdd y marcio ar draws yr ysgol, gyda mwy o sylw i nodi sylwadau adeiladol ar waith y disgyblion mewn iaith a nodi targedau i wella. Er hynny, nid yw'r marcio'n ddigon treiddgar ar draws yr ystod o bynciau i sicrhau gwelliant yn safonau gwaith y disgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cynnydd disgyblion yn cael ei asesu'n rheolaidd, gyda defnydd effeithiol o gymorthyddion i gyfnewid gwybodaeth am gynnydd. Mae strwythur clir ar gyfer gosod targedau unigol, gyda mwyafrif y disgyblion yn gwybod beth yw eu targedau personol. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r targedau a osodir yn ddigon penodol. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu priodol ar lawr y dosbarth.

Nid oes gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer mesur cynnydd disgyblion rhwng y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 neu i asesu gwaith disgyblion rhwng y ddau gyfnod allweddol. Nid yw'r ysgol ychwaith wedi datblygu proffiliau pynciol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau dilysrwydd y lefelau.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu system dracio cynnydd disgyblion yn seiliedig ar sgôr safonedig darllen yn y ddwy iaith a sillafu yn Saesneg. Er hynny, nid yw'r staff yn dadansoddi'r asesiadau yn ddigonol er mwyn targedu disgyblion sy'n tangyflawni ac eithrio mewn darllen.

**Argymhelliad 3: gwella ansawdd arweiniad a rheolaeth drwy weithredu yn ôl gofynion polisïau yr ysgol a'r awdurdod, datblygu prosesau hunan arfarnu mwy effeithiol, sicrhau gwelliant drwy'r cynllun datblygu ysgol a datblygu partneriaeth mwy effeithiol gyda rhieni**

Yn rhannol y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu amserlen briodol ar gyfer hunan arfarnu yn seiliedig ar gylch tair blynedd. Fodd bynnag, mae diffygion pwysig yn parhau yn y trefniadau hunan-arfarnu. Nid oes cofnodion yn seiliedig ar archwilio samplau o waith ysgrifenedig disgyblion ac nid yw adroddiadau monitro cydlynwyr pynciol nodi yr agweddau sydd angen eu gwella.

Mae diffyg dealltwriaeth o ddata meintiol gan arweinwyr, ac o ganlyniad nid yw'r ysgol wedi llwyddo i osod targedau digon heriol i godi safonau mewn agweddau penodol.

Mae fformat cynllun gwella'r ysgol wedi ei seilio'n briodol ar y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a fframwaith arolygu Estyn. Serch hynny, nid yw'r cynllun gwella yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r angen i wella safonau gyffredinol ar draws yr ysgol. Nid yw'r adroddiadau monitro yn cynnig darlun digon cywir o'r cynnydd a wnaed.

Mae'r ysgol wedi gweithio yn galed i wella cyfathrebu gyda rhieni.

**Argymhelliad 4: datblygu rôl y llywodraethwyr i ddylanwadu mwy ar safonau ac arweinyddiaeth a chyflawni argymhellion arolygiad 2004 yn llwyr**

Yn rhannol y mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae llywodraethwyr wedi derbyn arweiniad defnyddiol ar gyfer datblygu eu hatebolrwydd. Yn sgil adroddiadau monitro gan aelodau o'r corff, mae gan y corff llywodraethol well adnabyddiaeth o safonau. Fodd bynnag, nid oes gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o berfformiad yr ysgol i alluogi'r corff i herio'r ysgol a gweithredu'n effeithiol fel cyfaill beirniadol.

Mae diffygion ym mholisi a threfniadau'r ysgol mewn perthynas â diogelu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 barhau i godi safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 gwella'r addysgu yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig datblygu medrau meddwl y disgyblion a'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol;

A3 cryfhau'r prosesau hunan-arfarnu, yn enwedig ansawdd adroddiadau monitro a'r defnydd o ddata i fesur perfformiad;

A4 datblygu'r prosesau asesu, gyda sylw arbennig i ansawdd y marcio, defnydd o wybodaeth tracio cynnydd a sicrhau dilysrwydd asesiadau athrawon;

A5 datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol; a

A6 mynd i'r afael â'r diffygion yn y trefniadau diogelu.

Bydd arolygwyr Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.